**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

18 Tachwedd 2025

Annwyl Peredur

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu o ddwy drafodaeth bord gron rhwng arbenigwyr a gafodd eu cynnull ynghyd gennyf yn ddiweddar. Yn ystod y gyntaf o'r rhain, a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, trafodwyd ffyrdd o wella'r system ar gyfer cyllido'r llywodraethau datganoledig. Canolbwyntiwyd yn ystod yr ail, a gynhaliwyd ar 11 Tachwedd, ar yr egwyddorion a'r ystyriaethau ymarferol mewn perthynas â threthu cyfoeth ac asedau.

<u>Y Drafodaeth Bord Gron ar Barnett</u>

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau ers amser o blaid diwygio'r system Barnett yn sylfaenol. Rydym yn cydnabod y byddai disodli fformiwla Barnett yn golygu newid sylweddol – newid y byddai hefyd yn ofynnol cael cydsyniad y pedair gwlad er mwyn ei gyflawni. Bydd yn golygu ystyried yn ofalus sut y dylid gweithredu cyn bwrw ati, gan gynnwys asesu a ellir datblygu dull amgen ymarferol. Yn fwy uniongyrchol, mae cyfle hefyd i ymchwilio i welliannau i weithrediad presennol fformiwla Barnett.

I drafod y materion hyn, tynnodd y drafodaeth ar arbenigedd ar drefniadau cyllido, polisi cyllidol a chyhoeddus a chysylltiadau rhynglywodraethol y DU. Mae manylion yr aelodau i'w cael yn yr Atodiad.

Cafwyd deialog agored ac adeiladol yn ystod y drafodaeth bord gron. Canolbwyntiodd y drafodaeth gychwynnol ar yr annhebygolrwydd y gwelir symud tuag at system pedair gwlad newydd oherwydd bod y trefniadau Barnett presennol wedi ymwreiddio mor ddwfn yn rhan o'r setliadau cyfansoddiadol. Nodwyd hefyd fod y trefniadau cyllido yn Lloegr yn esblygu, a byddai angen cadw hyn mewn golwg.

Symudodd y drafodaeth wedi hynny at gamau ymarferol y gellid eu cymryd i wella'r system Barnett bresennol. Roedd cydnabyddiaeth gyffredin o bwysigrwydd mynd i'r afael â'r pryderon o ran tryloywder gweithrediad y system, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru. Roedd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth amserol, gyson a thryloyw mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud â chyllid canlyniadol Barnett, gan gynnwys rhoi eglurder ynglŷn â sut y caiff ffactorau cymhared eu pennu a sut y caiff penderfyniadau eu gwneud wrth ddosbarthu prosiectau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I gefnogi hyn, ystyriodd y cyfranogwyr a oes rôl i gorff annibynnol oruchwylio gweithrediad y system. Codwyd pwyntiau hefyd am yr angen am fecanwaith gwell ar gyfer datrys anghydfodau ag iddo elfen o gymrodeddu annibynnol.

Mae'n bosibl y bydd y gwelliannau i'r system yn cael eu hamgyffred fel rhai technegol eu natur ond, er gwaethaf hynny, cytunwyd hefyd fod iddynt sylfaen gyfansoddiadol gadarn, a bydd y gwelliannau arfaethedig i'r system yn cefnogi tegwch a chynaliadwyedd. Roedd consensws hefyd yn y drafodaeth bord gron y byddai'n fuddiol pe bai rhagor o hyblygrwydd ar gael i Lywodraeth Cymru er mwyn gallu cael y budd gorau o'i hadnoddau.

Bydd y safbwyntiau a ddarperir yn helpu i lywio ystyriaethau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Maen nhw hefyd yn bwydo i mewn i'r darn o waith ar y cyd gan y pedair gwlad sy'n edrych ar ffyrdd o wella gweithrediad fformiwla Barnett – gwaith y cytunodd Gweinidogion Cyllid y DU ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ym mis Hydref.

Y Drafodaeth Bord Gron ar Drethi Cyfoeth

Mae'r sefyllfa gyllidol heriol ynghyd â'r anghydraddoldeb cyfoeth sylweddol a chynyddol yn ein cymdeithas wedi arwain at fwy o gydnabyddiaeth bod angen system dreth decach a mwy cyfartal ar y DU. Byddai system o'r fath yn darparu biliynau mewn refeniw i fuddsoddi yn ein gwasanaethau cyhoeddus, gwella safonau byw a thyfu ein heconomi. Yn ystod yr ail drafodaeth bord gron, cafodd grŵp bach â ffocws ei gynnull ynghyd gan gynnwys arbenigwyr cyllid a threthi a'r rhai a gynrychioliai buddiannau rhanddeiliaid allweddol i ystyried y materion, y cyfleoedd a'r heriau sydd ynghlwm wrth roi mwy o bwyslais ar drethu cyfoeth ac asedau. Mae manylion yr aelodau i'w cael yn yr Atodiad.

Ystyriwyd yr ysgogiadau trethi sydd gennym eisoes – yng Nghymru ac ar lefel y DU – yn ystod y drafodaeth, a rhoddwyd sylw hefyd i drethi newydd posibl ar asedau a chyfoeth. Roedd yn amlwg o'r drafodaeth pa mor bwysig yw ystyried tegwch a chydraddoldeb y gwahanol ysgogiadau trethi. Nodwyd bod y diwygiadau sydd eisoes wedi'u cyflwyno i'r Dreth Gyngor yng Nghymru, un o'r trethi presennol allweddol ar asedau eiddo, yn dangos ein hymrwymiad i wneud ein trethi yn fwy blaengar.

Ystyriodd y cyfranogwyr hefyd rai o'r ystyriaethau ymarferol ac ymddygiadol sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i drethi asedau a chyfoeth, a'r angen i archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael yn llawn i fod yn sail ar gyfer ystyriaethau o'r fath.

Yn olaf, canolbwyntiodd y drafodaeth ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil cyfeirio neu neilltuo'r refeniw a gynhyrchir gan dreth ar gyfoeth ac asedau at ddibenion penodol. Trafododd y cyfranogwyr sut y gellid defnyddio buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus i liniaru anghydraddoldeb cymdeithasol, er enghraifft drwy gyllid ar gyfer addysg ac iechyd. Cydnabuwyd bod yn rhaid i unrhyw gynlluniau ar gyfer trethi cyfoeth nodi'n glir sut y byddai'r arian ychwanegol a fyddai'n cael ei godi yn cael ei wario.

Bydd y ddadl yn y Senedd ar 19 Tachwedd ar drethu cyfoeth yn gyfle pellach i drafod yr egwyddor a'r ystyriaethau ymarferol. Rwy'n falch bod cyfle yn cael ei roi i'r Senedd gael llais fel rhan o'r ddadl ehangach ar y mater hwn sy'n digwydd ar lefel y DU.

Yn gywir



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language

Atodiad 1:

**Aelodaeth y Drafodaeth Bord Gron ar Barnett**

- Cadeirydd: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
- Yr Athro Gerry Holtham – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chymrawd Oes, y Sefydliad Materion Cymreig
- David Philips – Cyfarwyddwr Cyswllt, Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Guto Ifan – Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd
- Yr Athro Hugh Rawlings – Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd
- Yr Athro John Denham – Prifysgol Southampton
- Dr Victoria Winckler – Cyn-gyfarwyddwr, Sefydliad Bevan
- Yr Athro Mairi Spowage – Cyfarwyddwr, Sefydliad Fraser of Allander
- Syr Robert Chote – Cyngor Cyllidol Gogledd Iwerddon
- Dr Rhys ap Gwilym – Prifysgol Bangor

**Aelodaeth y Drafodaeth Bord Gron ar Drethi Cyfoeth**

- Cadeirydd: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
- Yr Athro Gerry Holtham – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru a Chymrawd Oes, y Sefydliad Materion Cymreig
- Stuart Ward – Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid
- Guto Ifan – Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd
- Yr Athro Mairi Spowage – Cyfarwyddwr, Sefydliad Fraser of Allander
- Dr Rhys ap Gwilym – Prifysgol Bangor
- Arun Advani – CenTax, Prifysgol Warwick
- David Barnett – Y Sefydliad Siartredig Trethu
- Caitlin Boswell – Tax Justice UK
- Suzanne Bold – Patriotic Millionaires UK
- Jane Hutt AS – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip
- Jane Dodds AS – Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru